Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Arbeth**
**Canolfan Gymunedol Bloomfield**
**Northfield Road**
**Arbeth**
**Sir Benfro**

**Dyddiad yr arolygiad: 8 Chwefror, 2012**

**gan**


**Dorothy Morris**

**ar ran**
**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Arbeth yn 1998. Mae'n cyfarfod mewn ystafell fawr yng nghanolfan gymunedol Bloomfield yn nhref Arberth, Sir Benfro. Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn byw yn y dref a'r ardaloedd cyfagos. Bernir nad yw'r ardal yn ffyniannus nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant o ddwy a hanner oed hyd at y tymor cyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae ar agor rhwng 9:15 a 11:45 y bore ac am bedwar sesiwn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd 13 plentyn tair oed ar y gofrestr. Saesneg yw prif iaith yr aelwyd i'r rhan fwyaf o'r plant. Ar hyn o bryd, nid oes neb o gefndir ethnig lleiafrifol yn mynychu na phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae pum aelod o staff. Maent yn brofiadol ac mae tair yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Estyn ym Mawrth 2006 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Gorffennaf 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r plant yn gwneud cynnydd cyson o'u man cychwyn;
- mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau'r profiadau dysgu a ddarperir;
- mae gan yr holl blant agweddau da ac maent yn ymddwyn yn dda iawn;
- cynigir cwricwlwm diddorol;
- mae'r addysgu'n dda ar y cyfan;
- caiff y plant ofal da mewn amgylchedd dysgu cynhwysol; ac
- mae perthynas dda iawn rhwng y plant a'r ymarferwyr.

**Rhagolygon gwella**

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd:

- rheolaeth effeithiol y prif ymarferydd;
- gwaith tîm da;
- parodrwydd i ddatblygu a gwella;
- partneriaeth effeithiol gyda'r pwyllgor rheoli; a
- chefnogaeth dda'r rhieni a'r gymuned.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 wella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant;

A2 ymestyn medrau dysgu'r plant mwy galluog ymhellach;

A3 gryfhau dulliau asesu cynnydd y plant a gwneud defnydd ehangach o'r wybodaeth a gesglir i gynorthwyo'r cynllunio; a

A4 datblygu'r gweithdrefnau arfarnu a chynllunio i'r dyfodol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro'r cynnydd.

## Prif ganfyddiadau

| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?** | **Da** |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r plant yn gwneud cynnydd cyson mewn perthynas â'u man cychwyn. Gweithiant yn galed gan gaffael gwybodaeth a medrau priodol ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Gwna'r mwyafrif o'r plant ddefnydd cynyddol o'u medrau meddwl, cyfathrebu a rhif yn eu gwaith. Mae medrau gwrando a chanolbwyntio'r plant yn dda. Mae medrau

llafar Cymraeg y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n gyson ac maent yn barod i ymateb mewn geiriau unigol neu ddatganiadau byr. Maent i gyd yn deall cyfarchion a chyfarwyddiadau ac ymatebant yn gywir. Deallant stori a ddarllenir iddynt a gall y plant hŷn ddwyn i gof rhai o'r prif ddigwyddiadau. Mae gan y plant ymwybyddiaeth gynyddol o synau rhai o brif lythrennau'r wyddor ac amlygant fwynhad wrth edrych ar a thrin llyfrau. Gwyddant nifer dda o ganeuon a rhigymau ac maent yn eu hailadrodd yn gywir. Defnyddiant offer marcio yn bwrpasol mewn ystod o gyfryngau, gan ddangos ymwybyddiaeth sicr o rai o swyddogaethau ysgrifennu.

Gwna'r mwyafrif o'r plant ddefnydd priodol o'u medrau rhif mewn gweithgareddau bob dydd. Mae bron pob un yn cyfrif i ddeg ac yn defnyddio iaith fathemategol, megis mawr a bach, yn gywir mewn sefyllfaoedd ymarferol. Gallant greu a dilyn patrwm yn gywir. Maent yn adnabod siapiau dau ddimensiwn sylfaenol ac yn deall bod angen arian i brynu nwyddau yn y siop. Er bod y plant yn ddefnyddiwr hyderus o deganau rhaglenadwy, nid yw eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu cyffredinol yn datblygu'n ddigonol.

Mae medrau personol a chymdeithasol y plant yn dda. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'u medrau meddwl a datrys problemau mewn gweithgareddau mathemategol a chreadigol. Dangosant fedrau llawdriniol da wrth ddefnyddio offer torri a gludo.

**Lles: Da**

Mae gan y plant ymagweddau da tuag at ddysgu. Gweithiant yn ddiwyd ar dasg gan fwynhau'r ystod o weithgareddau sydd ar gael. Mae pob un ohonynt wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad ac wedi ffurfio perthynas dda gyda phlant eraill. Maent yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni'r oedolion ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth.

Mae gan y plant ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Deallant bwysigrwydd golchi dwylo yn rheolaidd ac yn arbennig cyn bwyta byr brydau.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithiol fel cymuned agos sy'n hybu medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant yn llwyddiannus. Mae ymddygiad y plant yn dda iawn. Maent yn cyd-chwarae'n rhwydd ac yn dangos gallu cynyddol i rannu adnoddau ac i aros eu tro. Mae'r plant hynaf yn gweithio'n lled annibynnol ac yn ymgymryd â phrofiadau newydd yn hyderus.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau diddorol ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu'r cwricwlwm. Mae'r cynllunio hirdymor yn seiliedig ar gyfres o themâu

sy’n addas i ystod oed y plant. Defnyddir fframweithiau addas ar gyfer cynllunio’r ddarpariaeth, yn arbennig gweithgareddau grŵp bach. Ceir amcanion eglur sydd wedi’u cysylltu’n briodol â chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae’r cynllunio yn cynnig cyfleoedd addas i ddatblygu medrau meddwl, cyfathrebu a rhifedd trwy’r ddarpariaeth. Defnyddir ystod o weithgareddau ac adnoddau pwrpasol i hybu’r medrau. Fodd bynnag, nid oes darpariaeth ddigonol i hyrwyddo medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu’r plant yn gyson.

Mae ymarferwyr yn defnyddio’r amgylchedd dan do a’r amgylchedd awyr agored yn effeithiol i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd. Mae’r cyfleoedd i’r plant blannu a thyfu planhigion ac ymwneud â gweithgareddau ailgylchu yn datblygu eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw. Gweithredir rhaglen addysg iechyd cyn-ysgol yr awdurdod lleol yn llwyddiannus a derbyniwyd ail ddeilen y cynllun.

Rhydd sylw ac anogaeth dda i’r plant ddefnyddio’u medrau cyfathrebu Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Mae’r ymarferwyr yn cyfathrebu’n gyson gyda’r plant ac yn cyflwyno geirfa newydd. Mae’r sylw i atgyfnerthu patrymau brawddegon sylfaenol yn fwy anwastad. Mae’r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Darperir cyfleoedd addas i’r plant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill trwy weithgareddau megis dathlu’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae gweithgareddau, megis astudio dillad a gwisgoedd pobl mewn gwledydd eraill, yn cyfrannu’n effeithiol at hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o’r byd ehangach.

### Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac maent yn darparu profiadau dysgu sy’n ennyn diddordeb y plant yn gyson. Defnyddiant ystod briodol o ddulliau addysgu ac adnoddau addas i gynorthwyo’r dysgu. Mae’r ymarferwyr yn gweithio’n dda fel tîm ac yn cynnig cymorth da i’r plant. Maent yn cyfathrebu’n effeithiol gyda’r plant yn ystod sesiynau stori a sesiynau grwpiau bach. Er hyn, nid yw’r tasgau wedi strwythuro’n ddigonol bob amser i ymestyn dysgu’r plant, yn enwedig y plant mwy galluog.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Maent yn arsylwi arnynt wrth iddynt ymwneud â’u gweithgareddau ac yn cofnodi unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol yn rheolaidd. Cesglir a chofnodir sylwadau addas ar draws y chwe maes dysgu. Er hyn, ni ddadansoddir y sylwadau yn ddigonol er mwyn defnyddio’r wybodaeth a gesglir i gynllunio’r camau nesaf yn y dysgu. Cwblheir ffurflen drosglwyddo gwybodaeth briodol i’r ysgol gynradd. Mae’r plant yn mynd adref â samplau o’u gwaith i’w rhannu gyda’u rhieni ond mae’r cyfleoedd iddynt drafod cynnydd eu plant yn fwy anffurfiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae trefniadau effeithiol mewn lle i gefnogi iechyd a lles plant.  Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar gydag awyrgylch deuluol sy'n cyfrannu'n arwyddocaol tuag at les y plant.  Mae'r trefniadau sefydlu, ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym.  Llwyddir i greu amgylchedd cynnes a chroesawgar i'r holl blant.

Sefydlwyd trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, pan mae angen, ac mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol.  Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.  Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ac maent yn ymwybodol o'r gofynion.  Ymgymerir ag asesiadau risg yn rheolaidd.

Mae profiadau dysgu effeithiol yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.  Hyrwyddir gwerthoedd fel tegwch, caredigrwydd, a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir, yn effeithiol drwy'r cwricwlwm a'r gweithgareddau dyddiol.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir.  Rhoddir pwyslais priodol ar ddathlu amrywiaeth.  Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant.

Mae gan y lleoliad nifer digonol o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth a phrofiad priodol i gyflwyno'r cwricwlwm.  Ceir cyflenwad digonol o adnoddau a chânt eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.  Caiff yr adeilad ei gynnal yn dda ac mae'n cynnig cyfleusterau addas.  Gwneir defnydd rheolaidd o'r ardal allanol, sydd yn cynnwys gardd, i ddarparu cyfleoedd i'r plant archwilio a chwarae.  Ychwanegir at yr amgylchedd dysgu trwy arddangos gwaith y plant o amgylch yr ystafell.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Caiff y lleoliad ei arwain yn effeithiol gan arweinydd profiadol.  Mae'r ymarferwyr i gyd yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gweithio'n dda fel tîm.  Llwyddir i greu amgylchedd trefnus a phwrpasol i'r plant.  Mae polisïau addas yn weithredol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cynnig cefnogaeth a chymorth cyson sy'n hyrwyddo datblygiad pellach y lleoliad yn effeithiol.  Mae gan yr aelodau ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd ac maent yn gweithio'n galed i godi arian.  Mae'r pwyllgor yn cyfarfod

yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion o'u trafodaethau, sy'n sail i gynllunio pellach. Mae perthynas waith agos rhwng y prif ymarferydd a'r swyddogion. Ceir trefniadau priodol i werthuso gwaith yr ymarferwyr ac i gytuno ar ddatblygiad proffesiynol pellach.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, hybu medrau iaith Cymraeg, a gweithredu rhaglen addysg iechyd cyn-ysgol yr awdurdod lleol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gyffredinol o gryfderau'r lleoliad. Maent yn cyd-drafod yn rheolaidd ond mae'r gweithdrefnau arfarnu a chynllunio i'r dyfodol yn fwy anffurfiol eu natur. Mae'r adroddiad hunan arfarnu a gwblhawyd cyn yr arolygiad yn fan cychwyn addas. Mae'r cynllun gwella ar ffurf drafft cyntaf ac yn arenwi rhai meysydd priodol ar gyfer datblygiad pellach.

Caiff y ddarpariaeth ei fonitro'n gyson gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol. Cytunir ar agweddau addas i gael sylw a rhoddir strategaethau priodol ar waith. Fel rhan o'r swydd, mae cadeirydd y pwyllgor rheoli yn ymwelydd cyson ac mae'r pwyllgor hefyd yn trafod agweddau ar y ddarpariaeth yn eu cyfarfodydd.

Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas mewn agweddau ar ddatblygiad a gofal plant. Gwnânt ddefnydd addas o'r hyfforddiant a geir mewn agweddau megis cynllunio gweithgareddau. Ceir rhai cyfleoedd i'r ymarferwyr gyd-drafod a rhannu syniadau gydag ymarferwyr a lleoliadau eraill yn ystod dyddiau hyfforddiant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad nodau ac amcanion clir sy'n cael eu rhannu gan y partneriaid. Mae perthynas dda gyda'r rhieni a darperir gwybodaeth berthnasol iddynt drwy'r hysbysfwrdd a chylchlythyron. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i gyfarfod gyda'r rhieni ar ddechrau a diwedd pob sesiwn.

Mae'r berthynas waith agos gyda'r pwyllgor rheoli yn gosod sylfaen dda ar gyfer datblygiad pellach y lleoliad. Ceir cydweithio agos gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin sy'n arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad.

Sefydlwyd cysylltiadau agos gyda'r ysgol gynradd leol trwy ymweliadau'r pennaeth, a gwneir defnydd o gyfleusterau'r ysgol ar gyfer gweithgareddau codi arian. Mae'r bartneriaeth gyda'r ysgol a gyda'r Cylch Ti a Fi lleol yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i'r plant i gam nesaf eu haddysg.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau da gyda'r gymuned. Gwneir defnydd da o gymorth parod swyddogion canolfan Bloomfield ar gyfer hwyluso rheolaeth y lleoliad. Gwneir

defnydd llwyddiannus hefyd o’r cysylltiadau gydag asiantaethau a mudiadau lleol i gefnogi'r ymgyrchon i godi arian.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Caiff adnoddau eu rheoli’n effeithiol.  Mae’r lleoliad wedi’i staffio’n briodol a sicrheir cyfleoedd hyfforddiant.  Ceir adnoddau dysgu digonol sy’n cael eu defnyddio’n effeithiol i hyrwyddo’r dysgu.

Mae gan yr arweinydd a’r trysorydd ddealltwriaeth dda o’r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion y lleoliad.  Caiff penderfyniadau ariannol eu trafod gan y pwyllgor a’u rheoli’n effeithlon gan y trysorydd.  Mae arian ychwanegol yn cael ei godi trwy ymdrechion caled y pwyllgor rheoli, y rhieni, yr ymarferwyr a’r gymuned.  Mae’r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhandaliad**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae’r plant yn hapus ac yn gwbl gartrefol yn y lleoliad. Maent i gyd yn ymuno’n frwdfrydig yn y gweithgareddau.  Maent yn barod i son am eu hoff weithgareddau a’u diddordebau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cyfnodol -**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cyfnodol |

**Copïau o’r adroddiad**
Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2013. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |